

AWDURDOD CYNLLUNIO SIR FYNWY

Cynllunio Adroddiad Perfformiad Blynyddol (APB) - 2022 –23

RHAGAIR

Rwy'n falch iawn o gyflwyno'r nawfed adroddiad perfformiad blynyddol ar gyfer Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Sir Fynwy.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod Gwasanaeth Cynllunio Sir Fynwy yn parhau i berfformio'n effeithiol, gyda dim ond un o'r tri ar ddeg o ddangosyddion angen ei wella yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru. Rydym yn perfformio'n dda wrth ddelio â phob math o geisiadau cynllunio ac rwy'n falch o nodi bod proses y pwyllgor, sydd wedi cynnwys carfan o Aelodau newydd, yn gweithio'n effeithiol gan ddangos perthynas dda iawn rhwng Aelodau a swyddogion yn yr awdurdod hwn. Dangosodd y tîm cyfan wytnwch clodwiw yn ystod y cyfnod wrth barhau i ddelio â cheisiadau cynllunio a gwaith treftadaeth mewn modd amserol ac i ymchwilio a datrys achosion gorfodaeth, wrth glirio ôl-groniad o'r cyfnodau adrodd blaenorol. Roedd hyn er gwaethaf yr angen i recriwtio, hyfforddi a chymathu sawl aelod newydd o staff ar draws pob elfen o'r Tîm Rheoli Datblygu. Bu heriau adnoddau sylweddol hefyd ymhlith y sefydliadau sy'n ymateb i ymgynghoriadau ar ein ceisiadau cynllunio.

O ran y meysydd y mae angen i ni eu gwella, mae gennym ni gamau gweithredu clir i wella'r elfennau hynny o'r gwasanaeth.

Mae cynllunio da yn ganolog i bwrpas y Cyngor o gyflawni Sir sero carbon a chefnogi lles, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o'n bywydau, tra hefyd yn creu twf yn yr economi ac yn amddiffyn y dreftadaeth a'r tirweddau sy'n gwneud ein Sir yn lle hyfryd. Mae cynllunio da yn allweddol i gyflawni ein hamcanion llesiant i bawb sy'n byw, yn gweithio ac yn treulio amser yn ein Sir hardd. Fel rhan o hyn, mae gan Gynllunio rôl allweddol wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd, creu lleoedd, darparu cartrefi fforddiadwy i'r rheini sydd angen tai a chynorthwyo'r economi leol i oresgyn y pwysau economaidd cyfredol.

Y Cyngorydd Paul Griffiths, Aelod y Cabinet

1.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1 Dyma nawfed adroddiad perfformiad blynyddol Sir Fynwy, sy'n edrych ar berfformiad y Gwasanaeth Cynllunio yn erbyn dangosyddion perfformiad a osodwyd yn genedlaethol, targedau Llywodraeth Cymru (LIC), perfformiad cyfartalog Cymru, a pherfformiad Sir Fynwy y llynedd. Mae'r canlyniadau'n cael eu hystyried yng nghyd-destun yr heriau, y cyfleoedd, y blaenoriaethau a'r adnoddau (staffio ac ariannol) sydd ar gael i ni. Amcan yr APB yw myfyrio ar berfformiad da a'i ddathlu, nodi meysydd i'w gwella, ac edrych ar draws Cymru i nodi'r meysydd posibl o ran arferion gorau fel y gallwn ddysgu ohonynt neu eu rhannu ag eraill.

1.2 Mae natur y dangosyddion perfformiad yn golygu bod eu ffocws ar gyflymder penderfyniadau a gwasanaeth cwsmeriaid yn hytrach na mesur a oes canlyniadau gwell wedi eu sicrhau ai peidio. Ni fu'n bosibl eto nodi ffordd wrthrychol o fesur canlyniadau, ond rydym yn ceisio blaenoriaethu sicrhau'r cynllun gorau posibl yn hytrach na'r dangosyddion traddodiadol sy'n ymwneud â chyflymder gwneud penderfyniadau. Mae ymchwil wedi nodi mai blaenoriaeth ein cwsmeriaid yw sicrhau caniatâd cynllunio: yn gyffredinol, mae cwsmeriaid yn deall buddion dylunio da ac, o fewn rheswm, nid ydynt yn gweld yr amser a gymerir yn flaenoriaeth.

1.3 At ddibenion yr adroddiad hwn, dadansoddir perfformiad ar draws pedair agwedd allweddol o wasanaethau cynllunio fel y nodir yn Fframwaith Perfformiad Cynllunio Llywodraeth Cymru:

- Effeithlonrwydd;
- Ansawdd;
- Ymgysylltu; a
- Gorfodaeth.

Mae perfformiad y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei drafod yn ddigonol yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol, sydd hefyd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2023. Ar gyfer y meysydd eraill yn y Fframwaith Perfformiad Cynllunio, cafwyd data perfformiad gan swyddogion Sir Fynwy o'r Datganiadau Rheoli Datblygu Chwarterol a'n system swyddfa gefn ein hunain. Gwnaed cymariaethau â pherfformiad cyfartalog Cymru ar gyfer pob mesur dros 2018/19 (y cyfnod adrodd diweddaraf ar gyfer y data cenedlaethol hwn) yn ogystal â'n perfformiad ein hunain yn erbyn y mesurau dros 2022/23. Mae perfformiad yn cael ei ystyried fel 'Da', 'Teg' neu 'Angen Gwella'.

1.4 Yn seiliedig ar y wybodaeth berfformiad yn Adran 6 ac Atodiad A, gallwn fod yn falch o'r gwasanaeth yr ydym yn ei gyflawni o ystyried yr heriau yr ydym wedi'u hwynebu. Yn ystod y cyfnod hwn:

- Gwellodd cyfran yr holl geisiadau a bennir o fewn 8 wythnos, neu amserlen y cytunwyd arni, o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol gan gynyddu o 81% i 89%, ac arhosodd ymhell uwchlaw targed Llywodraeth Cymru o 80%;
- Cynyddodd yr amser cyfartalog i bennu pob cais i 110 diwrnod (o 106 diwrnod yn 2021/22) a gellir egluro hyn gan effaith yr ôl-groniad a achoswyd gan brinder staff blaenorol yn y tîm ymgeisio (ac ymhlith ein sefydliadau sy'n rhan o'n hymgyngoriadau) yn ogystal â'r oedi a

achoswyd gan y mater llygredd ffosffadau a arweiniodd at saib wrth bennu llawer o geisiadau yn rhannau canolog a gogleddol y Sir;

- Cyfran y prif geisiadau a bennwyd o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt oedd 71% ac roedd yn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2018/19;
- Penderfynwyd ar 75% o geisiadau adeiladu rhestredig o fewn amserlenni cymeradwy a gwnaethom ddarparu gwasanaeth treftadaeth werthfawr i Gyngor Blaenau Gwent;
- Arhosodd canran y ceisiadau a gymeradwywyd yn uchel ar 94%, ymhell uwchlaw cyfartaledd Llywodraeth Cymru;
- Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gwnaethom dderbyn 361 o geisiadau sy'n ceisio Cyngor cyn ymgeisio. Roedd 147 o geisiadau cynllunio yn deillio o'r cyngor cyn-ymgeisio a roesom. O'r rhai sydd wedi'u penderfynu, gwrthodwyd saith (5%) a thynnwyd naw yn ôl (6%) oherwydd newid yn amgylchiadau'r ymgeiswyr; cymeradwywyd y gweddill (89%). Nid oedd y saith a wrthodwyd wedi dilyn y cyngor a roesom yn y cam cyn ymgeisio. O ganlyniad, mae gennym gyfradd llwyddiant 100% o geisiadau a aeth i'r cam penderfynu ac a ddilynodd ein cyngor cyn ymgeisio.

1.5 Gellir gweld tabl cryno o'n perfformiad yn Atodiad A.

Roedd angen gwella'r ddau fesur gorfodaeth dros y cyfnodau adrodd blaenorol, er ein bod wedi nodi yn dilyn ymholiadau Aelodau ynghylch cywirdeb data yn y Pwyllgor Dethol Perfformiad a Throsolwg diweddar, ein bod yn mesur y camau gweithredu cadarnhaol yn anghywir a bod hynny yn chwyddo'r ffigur drwy gynnwys y cyfnod ymchwilio cychwynol a olygai fod y mesur yn 'Angen Gwella' ond dylai fod wedi bod yn 'Teg'. Nodwn hefyd fod gwelliant ym mherfformiad y tîm gorfodaeth wedi cael ei gynnal yn nau chwarter cyntaf 2023/24 lle mae'r ddau ddangosydd allweddol wedi symud i 'oren' neu 'gwyrdd'.

2.0 CYD-DESTUN

2.1 Mae'r adran hon yn nodi'r cyd-destun cynllunio y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gweithredu ynddo, yn gorfforaethol ac o ran Sir Fynwy fel Sir, am y cyfnod 2022-23.

Cyd-destun Corfforaethol

2.2 Mabwysiadodd y Cyngor ei Gynllun Datblygu Lleol ym mis Chwefror 2014 a chyflwynodd ei wythfed Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2022.

2.3 Rydym yn cyfrannu at gyflawni amcanion lefel uchel y Cyngor, a nodwyd yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol y Cyngor 2022-28. Yr amcanion yr ydym yn cyfrannu atynt yw

Diben CSF Sir sero carbon, yn cefnogi lles, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o fywyd

Amcanion CS Lle teg i fyw, lle mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi'u lleihau;
Lle gwyrdd i fyw a gweithio, gyda llai o allyriadau carbon, a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur;
Lle ffyniannus ac uchelgeisiol, lle mae canolfannau tref bywiog, lle gall busnesau dyfu a datblygu;
Lle diogel i fyw, lle mae gan bobl gartref a chymuned, lle maent yn teimlo'n ddiogel;
Man sydd wedi'i gysylltu, lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi;
Man dysgu, lle mae pawb yn cael cyfle i gyrraedd eu potensial.

2.4 Diben y Gwasanaeth Cynllunio, 'Cynllunio ar gyfer, cynghori, rhoi caniatâd a sicrhau'r datblygiad gorau posibl', yn cysylltu'n uniongyrchol â phob un o'r chwe amcan hyn. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau a Lle.

2.5 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn cynnwys y timau i) Polisi Cynllunio a ii) y Rheoli Datblygu (RhD). Prif bwrpas y Tîm Polisi Cynllunio yw paratoi a monitro'r Cynllun Datblygu Lleol Statudol (CDLI) a chynorthwyo i'w weithredu'n effeithiol drwy'r broses Rheoli Datblygu (cais cynllunio). Mae hyn yn sicrhau bod amcanion defnydd tir a datblygu cynaliadwy'r Cyngor yn cael eu bodloni gan sicrhau bod cyflenwad digonol o dir mewn lleoliadau cynaliadwy ar gyfer tai, manwerthu, addysg, hamdden, twristiaeth, trafndiaeth, busnes, gwastraff ac anghenion eraill, tra hefyd yn amddiffyn yr Asedau Amgylcheddol, Treftadaeth a Diwylliannol Gwerthfawr y Sir. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â chyflawni amcanion y Cyngor.

2.6 Mae meysydd gwaith allweddol ar gyfer y gwasanaeth yn cynnwys:

- Sicrhau bod yna gynllun amnewid ar gyfer CDLI Sir Fynwy.
- Paratoi a chydlynu canllawiau cynllunio atodol thematig i helpu i feithrin dehongliad a gweithredu polisi'r CDLI
- Gweithredu CDLI y Cyngor drwy ymgysylltu a gweithio gyda chymunedau, a'n gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol

- Monitro a gwerthuso polisiau'r cynllun datblygu, gan gynnwys paratoi Adroddiad Monitro Blyneddol Statudol CDC (AMB).
 - Cynnal sylfaen dystiolaeth y CDLI a'n sicrhau ei fod yn addas i'r diben ar gyfer adolygu'r CDLI yn y dyfodol.
 - Darparu cyngor cyn ymgeisio i gwsmeriaid;
 - Pennu ceisiadau cynllunio yn unol ag ystyriaethau polisi a chynllunio materol mabwysiedig, gan ystyried sylwadau rhanddeiliaid ac amcanion corfforaethol;
 - Sicrhau cyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr i dalu am ofynion seilwaith sy'n deillio o ddatblygiadau newydd
 - Diogelu 2400 o Adeiladau Rhestredig y Sir a 31 o Ardaloedd Cadwraeth, ardaloedd o sensitifrwydd archeolegol, AHNE Dyffryn Gwy a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;
 - Darparu gwasanaeth treftadaeth i'n cydweithwyr cyfagos ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent sy'n gweithio mewn modd sydd mor gyson â'r un a ddarparwyd ar gyfer Sir Fynwy.
 - Cymryd camau gorfodaeth cadarn yn erbyn datblygiadau heb awdurdod sy'n annerbyniol er budd y cyhoedd.
- 2.7 Prif gwsmer y Gwasanaeth Cynllunio yw ymgeisydd unrhyw gais cynllunio, ond mae nifer o randdeiliaid gan gynnwys unigolion, cymunedau, busnesau, sefydliadau'r trydydd sector, gwasanaethau y Cyngor eraill ac aelodau etholedig.

Cyd-destun Lleol

2.8 Wedi'i leoli yn Ne Ddwyrain Cymru, mae Sir Fynwy yn meddiannu safle strategol rhwng y prif ganolfannau yng Nghymru, de-orllewin Lloegr a Chanolbarth Lloegr. Mae'r Sir yn rhannu ffin ag awdurdodau cynllunio lleol cyfagos Casnewydd, Torfaen a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yng Nghymru a Swydd Gaerloyw, Fforest y Ddena a Swydd Henffordd yn Lloegr, gyda'r Hafren yn cysylltu â De Swydd Gaerloyw. Mae'r Sir yn ffurfio'r porth i Dde Cymru ac yn rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r lleoliad hwn yn rhoi hunaniaeth unigryw i'r Sir.

Ein pobl


2.8.1 Mae Sir Fynwy yn gorchuddio ardal o oddeutu 88,000 hectar gyda phoblogaeth o 93,000 yn 2021¹. Mae bron i 8% o drigolion yn byw yn ardal BBNP y Sir. Mae gan y Sir ddwysedd poblogaeth isel o 1.1 o bobl yr hectar - yn sylweddol is na chyfartaledd De Ddwyrain Cymru o 5.3 o bobl yr hectar - gan adlewyrchu natur wledig yr ardal. Dim ond 53% o'r boblogaeth oedd yn byw mewn wardiau a ddiffiniwyd fel ardaloedd trefol (h.y. gyda phoblogaeth o fwy na 10,000).

2.8.2 Mae ein poblogaeth wedi bod yn cynyddu'n gyson, sef 7.6% rhwng 2001 a 2011 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 5.5%. Mae'r cynnydd rhwng 2011 a 2021 yn cynrychioli cynnydd is ar 1.8%, fodd bynnag, mae hyn ychydig yn uwch na'r twf i Gymru dros yr un cyfnod o 1.4%. Mae'r cynnydd hwn i'w briodoli'n llwyr i fudo mewnol, gyda newid naturiol yn dangos twf negyddol. Mae gan y Sir gyfran gymharol uchel a chynyddol o grwpiau oedran hŷn, a chyfran is a gostyngol o oedolion iau o gymharu â chyfartaleddau'r DU a Chymru. Mae'r graff isod yn

¹ Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021 canlyniadau cyntaf sydd wedi eu cyhoeddi (28.06.2022). Ffigyrau wedi eu haddasu i'r 'cant' agosaf.

dangos cyfran y rhai 85+ oed yn Sir Fynwy o'i chymharu â Chymru, yn seiliedig ar ragamcanion poblogaeth yr awdurdod lleol yn 2018 ar gyfer Cymru, 2018 i 2043. Mae'n dangos bod y duedd o boblogaeth sy'n heneiddio yn debygol o barhau. Mae datganiad cychwynnol cyfrifiad 2021 yn awgrymu bod cyfran y rhai 85+ oed yn 3.4% yn Sir Fynwy o'i gymharu â 2.7% yng Nghymru.

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, Ystadegau Cymru




2.8.3 Mae gan y newid demograffig hwn oblygiadau sylweddol i weithgarwch economaidd a'r galw am wasanaethau i alluogi ein dinasyddion i barhau i fyw bywydau annibynnol.

2.8.4 Mae'r diagram canlynol yn crynhoi'r materion y mae'r Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â hwy wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLIA) dros yr ychydig flynyddoedd nesaf (gweler y Cytundeb Cyflenwi Diwygiedig):

Monmouthshire Replacement Local Development Plan – Issues, Vision and Objectives

Key Issues to be addressed in the Replacement LDP



2.9 Tai ac ansawdd bywyd

2.9.1 Mae gan y Sir dri chategori eang o anheddiad:

- Mae trefi marchnad hanesyddol yn y Fenni, Cas-gwent a Threfynwy wedi datblygu dros nifer o flynyddoedd i gael ystod eang o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, siopa, cyfleusterau cymunedol a thrafnidiaeth gyhoeddus;
- Mae aneddiadau mwy newydd yn Severnside o Gil-y-coed/Porthsgiwed, Magwyr/Gwndy, Rogiet a Sudbrook, lle mae lefelau uchel diweddar o dwf preswyl wedi digwydd heb y swyddi lleol a'r cyfleusterau cymunedol i gydfynd â hyn. Mae'r ardal yn elwa, fodd bynnag, o leoliad strategol yn 'Borth' i Gymru gyda mynediad da i farchnadoedd cyflogaeth Casnewydd, Caerdydd a Bryste.
- Yr ardal wledig, sy'n cynnwys tref fach Brynbuga, pentrefi mwy Rhaglan a Penperllenni, a nifer fawr o bentrefi llai, sydd wedi'u gwasgaru'n eang o amgylch y Sir.

2.9.2 Dros y degawd diwethaf, mae'r nifer o dai sydd wedi eu cwblhau yn ardal ACLI Sir Fynwy ar gyfartaledd mwy na 300 o anheddau y flwyddyn, er y bu amrywiaethau blynyddol sylweddol gyda 205 wedi eu cwblhau yn 2014/15 a 443 yn 2018/19. Er mwyn cyflawni'r gofyniad tai CDLI, roedd angen cwblhau 488 y flwyddyn (2013-2021). Yn ystod 2022/23, roedd 343 wedi eu cwblhau. Trafodir hyn yn fanylach yn Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLI.

- 2.9.3 Mae data y Gofrestrfa Tir yn dangos bod prisiau tai ar gyfartaledd yn Sir Fynwy wedi cynyddu gyda phrisiau cyfartalog yn chwarter 1 (Ionawr i Fawrth) 2022 yn £334,148, yn sylweddol uwch na phris llinell sylfaen chwarter 4 ar gyfer 2012 (£188,720). Rhwng 2006 (yr amser y mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Unedol Sir Fynwy) a Mawrth 2022, cwblhawyd 4,540 gyda 903 ohonynt yn rhai fforddiadwy, yn cyfateb i 20% o'r holl anheddau a adeiladwyd. Ers mabwysiadu'r CDLI (2014) i Fawrth 2022, cwblhawyd 2,535 o gyda 530 ohonynt yn rhai fforddiadwy, sydd yn cyfateb i 21% o'r holl anheddau sydd wedi'u hadeiladu. Mae'r ddarpariaeth tai fforddiadwy hon yn ymwneud â'r unedau hynny sy'n deillio o gydsyniadau cynllunio ond mae modd cynyddu'r ddarpariaeth tai fforddiadwy os yw tai marchnad agored yn cael eu prynu gan landlord cymdeithasol cofrestredig.
- 2.9.4 Yn gyffredinol, mae Sir Fynwy yn Sir lewyrchus sy'n cynnig ansawdd bywyd uchel i'w thrigolion. Fodd bynnag, mae mynediad gwael i gyfleusterau cymunedol a darpariaeth gwasanaeth lleol sydd yn dirywio yn broblem i gymunedau gwledig ac sy'n heneiddio. Mae iechyd poblogaeth Sir Fynwy yn gyffredinol yn well na chyfartaledd Cymru, gyda mwy o ddisgwyliadau bywyd a chyfran uwch o breswylwyr yn ystyried eu hunain fel rhai mewn iechyd da (cyfrifiad 2011). Mae llai o drigolion y Sir yn dioddef gyda salwch tymor hir cyfyngol o'i gymharu â Chymru cyfan. Mae cyfradd y troseddau yr adroddir amdanynt yn Sir Fynwy yn tueddu i fod yn is nag ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd.

2.10 Ein heconomi

- 210.1 Mae Arolwg Poblogaeth Flynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu bod gan y Sir gyfran uchel o bobl oedran gweithio mewn cyflogaeth (77.7% Ionawr 2021 - Rhagfyr 2021) o gymharu ag awdurdodau cyfagos gan gynnwys Casnewydd (72.7%), Caerdydd (74.9%), Blaenau Gwent (71.1%) a Thorfaen (70.3%). Y ffigur cyfatebol ar gyfer Cymru yw (73.1%). Mae ein heconomi yn dibynnu ar y sector cyhoeddus a gwasanaethau ar gyfer cyflogaeth:
- Yn 2020, mae'r Gofrestr Busnes a'r Arolwg Cyflogaeth (BRES) yn cofnodi bod y sector gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd yn cyfrif am 30.9% o swyddi;
 - Mae'r sector dosbarthu, manwerthu, gwestai a bwytai yn cyfrif am 27.9% o swyddi;
 - Mae twristiaeth, fel rhan o'r sector gwasanaethau, hefyd yn bwysig yn y Sir (gweler 2.16.3 isod).
- 2.10.2 Roedd gan y Sir 4,490 o fentrau gweithredol yn 2021, ac roedd 10% ohonynt yn y sector gwasanaethau eiddo a busnes. Roedd y tri sector gyda'r nifer fwyaf o fusnesau yn wasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (17%); Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota (16%) ac Adeiladu (11%). Roedd gwasanaethau llety a bwyd yn cyfrif am 7%. Mae set ddata Cyfrif Busnes y DU a gyrchir drwy NOMIS hefyd yn awgrymu bod 98.5% o fusnesau'r Sir yn cael eu dosbarthu fel rhai bach (h.y. hyd at 49 o weithwyr).
- 2.10.3 Mae twristiaeth yn hanfodol i economi Sir Fynwy ac yn creu incwm i gefnogi ystod eang o fusnesau sy'n elwa o wariant gan ymwelwyr. Yn ôl ffigurau a gyflenwyd gan ddangosydd economaidd twristiaeth 2021 STEAM (Monitor Gweithgaredd Economaidd Twristiaeth Scarborough), roedd y sector wedi creu £182.79 ar gyfer Sir Fynwy yn 2021 a chefnogodd yr hyn sy'n cyfateb i 2,336 o swyddi amser llawn. Mae pob ymwelydd sy'n cyfrannu at economi'r Sir drwy brynu bwyd a diod, tanwydd, gwasanaethau a llety yn gwario dros £77 y dydd ar gyfartaledd.

- 2.10.4 Roedd perfformiad twristiaeth Sir Fynwy dros oes y cynllun blaenorol yn dangos twf calonogol o 10% o ran effaith economaidd, cynnydd o 8.7% yn nifer yr ymwelwyr a thwf o 1.5% mewn swyddi amser llawn. Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan cymeradwy wedi'i ddatblygu yn dilyn adolygiad o'r cynllun blaenorol ac mae'n seiliedig ar ragolygon gorau Sir Fynwy ar gyfer twf twristiaeth yn ogystal ag ymgynghori helaeth â rhanddeiliaid. Mae'r cynllun yn manteisio ar gyfleoedd allweddol i Sir Fynwy, gan gynnwys ei leoliad fel y Porth i Gymru gan gynnig cyfle cychwynnol i wneud argraff wych, yn enwedig nawr bod tollau Pont Hafren wedi cael eu diddymu'n raddol.
- 2.10.5 Mae Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru 2021 yn nodi bod 61.2% o drigolion sy'n gweithio'r Sir yn gweithio yn yr ardal. Mae hwn yn gynydd ar flynyddoedd blaenorol ac mae'n awgrymu y bu rhywfaint o gynydd wrth gwrrd â'r dyhead i gynyddu cyfran y preswylwyr sy'n gweithio yn Sir Fynwy dros gyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, mae'r un ffynhonnell ddata yn awgrymu bod gan Sir Fynwy all-lif net o 2,800 o gymudwyr - gyda 14,300 yn cymudo i'r Awdurdod i weithio a 17,100 yn cymudo allan. Roedd cryn yn cymudo i mewn o'r sir o Gasnewydd (3,000), Torfaen (1,900) a Blaenau Gwent (1,400), ac o Loegr (2,900). Y prif ardaloedd ar gyfer cymudo oedd Casnewydd (2,600), Torfaen (2,400), Caerdydd (1,600) gyda 4,600 arall yn mynd i Fryste. Mae cyfran gymharol uchel o drigolion Sir Fynwy yn teithio pellteroedd maith i weithio, gyda defnydd uchel o geir preifat. Mae dibyniaeth fawr ar y ceir preifat a chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus yn fater penodol mewn ardaloedd gwledig.
- 2.10.6 Mae heriau allweddol eraill sy'n wynebu'r Gwasanaeth Cynllunio yn cynnwys ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd (gan gynnwys y rhan fwyaf o Wastadeddau Gwent a gwastadeddau llifogydd yr afonydd y Gwy a'r Wysg a'u llednentydd). Fodd bynnag, mae amddiffynfeydd llifogydd o fewn trefi Cas-gwent, Trefynwy a Brynbuga.

2.11 Ein treftadaeth adeiledig

- 2.11.1 Mae gan ardal ACLI Sir Fynwy dreftadaeth a hanesyddol cyfoethog sy'n cynnwys:
- Tua 2,400 o Adeiladau Rhestredig, gyda 2% ohonynt yn Radd I, mae 10% yn Radd II* ac 88% yn Radd II. Mae'n werth nodi bod tua 176 o Adeiladau Rhestredig wedi'u nodi fel rhai sydd mewn perygl.
 - 31 Ardal Gadwraeth - wedi'u dynodi ar gyfer eu diddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig, gan gwmpasu tua 1,648 hectar i gyd;
 - 45 Parc a Gerddi Hanesyddol - y nodwyd bod ganddynt ddiddordeb hanesyddol arbennig, yn cwmpasu 1,910 hectar;
 - 3 Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Rhagorol a nodwyd gan CADW (rhannau o Flaenafon, Gwastadeddau Gwent a Dyffryn Gwy Isaf);
 - 164 o Henebion Cofrestredig.

3.0 GWASANAETH CYNLLUNIO

Trefniant sefydliadol

- 3.1 Tua diwedd 2021/22, gwnaed newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth cynllunio, yn bennaf yn y Timau Ceisiadau, Treftadaeth a Gorfodaeth. Yn y Tîm Ceisiadau, gadawodd tri Swyddog

Rheoli Datblygu y tîm, un cydweithiwr yn dilyn cyfnod hir o salwch, un i ddilyn gyrfa wahanol a'r llall yn dilyn dyrchafiad i awdurdod cynllunio arall yn Ne Ddwyrain Cymru. Nid yw'n syndod felly bod hyn wedi gadael bylchau sylweddol o ran staffio, dargyfeirio mwy o waith i'r staff a'r rheolwyr oedd ar ôl ac arwain at ddirywiad mewn perfformiad o'r dechrau i'r diwedd sydd ar draws pob math o geisiadau, nid dim ond deiliad tŷ a mân geisiadau. Fel ymateb, crëwyd y rôl SRhD dros dro newydd a swydd cynlluniwr dan hyfforddiant a phenodwyd ymgeiswyr llwyddiannus ddiwedd 2021 i fynd i'r afael â'r gwaith. Mae'r ddau swyddog dros dro hynny bellach wedi'u penodi i rolau Swyddogion RhD amser llawn yn dilyn cyfweiliad ar gyfer y swyddi parhaol (a gwag). Cymerwyd y swydd SRhD arall gan gyn Swyddog Monitro Gorfodaeth y Cyngor fel bod yr holl swyddi yn y tîm ceisiadau wedi'u llenwi erbyn diwedd cyfnod adrodd 2021/22.


Yn y Tîm Treftadaeth, roedd mân ail-strwythuro yn dilyn y penderfyniad i atal gwaith cydweithredu gyda Chyngor Torfaen (roedd hyn yn rhannol oherwydd pwysau adnoddau ac yn rhannol oherwydd y diffyg gallu i gadw'r Uwch Swyddog Treftadaeth, swydd a ariannwyd gan Dorfaen). Apwyntiwyd unigolyn i'r swydd fel Swyddog Treftadaeth ym mis Gorffennaf 2022. Gadawodd Swyddog Coed y Gwasanaeth Cynllunio ym mis Hydref 2022 i ymgymryd â rôl debyg yn Ne Orllewin Lloegr ac apwyntiwyd ei olynydd ym mis Ionawr 2023 gyda Swyddog newydd hefyd yn gweithio 0.6FTE fel ei ragflaenydd.

O ran gorfodaeth, llenwyd dwy swydd wag yn gynnar yn 2022. Oherwydd y bylchau hyn mewn apwyntiadau, profwyd pwysau sylweddol gan yr aelodau tîm a oedd yn weddill gan effeithio'n negatiff ar berfformiad, er nad yw hyn yn syndod.

Yn y Tîm Cymorth Cynllunio, dewisodd Swyddog Cymorth Cynllunio ymgymryd â rôl rhan-amser a llenwyd elfen wag y rôl yn 2022.

Yn y Tîm Polisi, ymddeolodd Uwch Swyddog ym mis Rhagfyr 2022 a gadawodd y Swyddog Ymchwil am swydd newydd yn y sector preifat ym mis Medi 2022. Bu'r broses recriwtio yn heriol ac apwyntiwyd unigolyn newydd i'r tîm yn ystod haf 2023.

3.2 Strwythur yr Adran a Llinellau Adrodd ar gyfer Cyfnod Adrodd 2022-23



Strwythur Staff Gwasanaeth Cynllunio ar gyfer y Cyfnod Adrodd 2022-23



Cyllidebau

3.3 Y ddau brif gost ar gyfer y gwasanaeth yw costau staff a chyllideb y CDLI (trosglwyddir arian o'r gyllideb uchod i eistedd mewn cronfa wrth gefn CDLI, a adeiladwyd i ariannu'r CDLI nesaf). Cynhyrchir incwm drwy gynllunio ffioedd cais a thaliadau am ein gwasanaethau dewisol gan gynnwys ein Gwasanaeth Cyngor Cyn-ymgeisio (roedd yr olaf yn gyfanswm o oddeutu £47,000 dros 2022/23, ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol) yn ogystal â gwasanaethau dewisol newydd y Gwasanaeth Cynllunio sy'n yn cael eu trafod isod.

3.4 Roedd incwm ffioedd ceisiadau cynllunio (£475k) yn is na 2021/22 ac yn llai nag yn y rhan fwyaf o'r cyfnodau adrodd blaenorol. Y prif achos oedd y gostyngiad yn nifer y prif geisiadau cynllunio sy'n darparu ffioedd llawer uwch o gymharu â'r mân geisiadau. Mae'n anochel bod hyn wedi bod yn ganlyniad i effaith y cyfyngiadau ffosffadau mewn afonydd mewn aneddiadau fel y Fenni a Threfynwy (trafodir hyn yn adrannau diweddarach yr adroddiad hwn) yn ogystal â cham hwyr cylch bywyd y CDLI. Mae'r gwaith ar gyfer rhagamcanu ffioedd yn awgrymu ei fod yn debygol y bydd mwy o weithgaredd ar safleoedd tai dros 2023/24 mewn perthynas â safleoedd a ddyrennir yn y CDLI presennol nad ydynt eto wedi eu cyflwyno (Heol Tudor a Fferm Drewen, Trefynwy) er bod hyn yn amodol ar ddatrys yr her ffosffadau. Bydd oedi i gamau adolygu'r CDLI newydd yn golygu na fydd unrhyw safleoedd tai a newydd yn dod ymlaen tan y cam Blaendal/Asesu, yn ôl pob tebyg yn rhan ddiweddarach 2024. Mae'r ffioedd cais yn cael eu gosod o bryd i'w gilydd gan Lywodraeth Cymru ond nid ydynt yn codi yn unol gyda chwyddiant bob blwyddyn (roedd y cynnydd diwethaf yn 2020) ac mae incwm ffioedd yn dibynnu ar weithgareddau economaidd sydd hefyd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.

3.5 Mae ymchwil gan Lywodraeth Cymru yn nodi bod ffioedd ymgeisio yn adennill oddeutu 50% o'r gost o ddelio â cheisiadau cynllunio. Codir costau ychwanegol drwy'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Statudol, a thrwy wasanaethau eraill fel gorfodaeth a rheoli treftadaeth. Defnyddir mwy o incwm ffioedd cais cynllunio i leihau cost net y gwasanaeth i'r Cyngor. Yn ystod y flwyddyn, defnyddir incwm ychwanegol i gydbwysu cyllidebau'r Cyngor a gwrthbwysu gorwario mewn gwasanaethau eraill. I'r gwrthwyneb, fel sy'n digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, defnyddiwyd tanwariant mewn gwasanaethau eraill i dalu am unrhyw incwm na sydd wedi ei sicrhau gan y Tîm Rheoli Datblygu (RhD), pan mae ffactorau economaidd ac amgylchiadau eraill at ostyngiad sydyn mewn incwm ffioedd. Mae incwm ffioedd cais wedi amrywio'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae hyn yn her i reoli cyllideb wrth symud ymlaen. Mae incwm ffioedd yn cael ei ddylanwadu'n fawr gan yr economi ehangach, er enghraifft adeiladu tai (sydd yn cael ei effeithio gan fenthycia morgeisi a hyfywedd datblygu tai a ffrydiau cyllido eraill.

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24
Incwm ffioedd wedi'i gyllidebu	£633k	£668k	£684k	£681k	£693k	£589k	£480k	£480k	£570k

Incwm go iawn	£664k	£560k	£430k	£653k	£666k	£494k*	£651k	£554k	
----------------------	-------	-------	-------	-------	-------	--------	-------	-------	--

O.N. Mae incwm ffioedd yn cynnwys ffioedd cais cynllunio, incwm Cyngor cyn ymgeisio a'r ffioedd dewisol ar gyfer ceisiadau llwybr cyflym. Mae ffigur 2019/20, 2020/21, 2021/22 hefyd yn cynnwys taliad gan Gyngor Torfaen tuag at ariannu'r Gwasanaeth Treftadaeth ar y Cyd, sydd bellach wedi dod i ben.

*Yna cafodd y lefel ostyngedig hon o incwm ei gwrthbwyso gan grant gan LIC oherwydd y pandemig

Adnoddau staff

- 3.4 Mae lefelau staffio ar gyfer y cyfnod adrodd yn y siart ym mharagraff 3.2 uchod. Gwelodd newidiadau allweddol dros 2021-2023 drosiant sylweddol o staff o fewn y Gwasanaeth Cynllunio fel y trafodir yn Adran 3.1 uchod.
- 3.5 Ar gyfer y cyfnod adrodd, roedd lefelau salwch yn gymharol isel. Cafodd y pandemig effaith ar allu swyddogion mewn cyfnodau adrodd blaenorol ac yn sicr dros 2021/22 (a 2022-23 yn y Tîm Polisi) gan achosi pwysau nodedig yn ystod y cyfnod rhwng penodi staff-a waethygydd gan y trosiant cymharol uchel ymhlith staff yn ystod y cyfnod hwn. Roedd hyd y pandemig wedi effeithio ar forâl aelodau'r tîm a gall yr ymdeimlad o weithio cartref ynysu staff, ac wrth i eraill adael, mae'r gwaith yn cronni a'n cael ei drosglwyddo i'r staff sy'n weddill. Mae'n deg dweud bod recriwtio carfan newydd o gynllunwyr wedi adfywio'r tîm, fodd bynnag, ac wedi galluogi'r staff presennol i fynd yn ôl ar ben eu llwyth gwaith. Er mwyn mynd i'r afael â materion perfformiad a morâl, mae rheolwyr yn rhoi cyfarfodydd rheolaidd ar waith, sgysiau lles, cwnsela ac agwedd fwy strwythuredig ar gyfer rheoli perfformiad. Yn ogystal, rydym wedi buddsoddi mewn cynllunwyr ifanc sy'n ceisio dod i mewn i'r proffesiwn trwy ddarparu swydd dan hyfforddiant (lleoliad blwyddyn) yn y timau Polisi a Rheoli Datblygu - yr olaf yn cynorthwyo llwyth gwaith y swyddogion achos ceisiadau cynllunio trwy gael eu llwyth achosion eu hunain yn delio gyda cheisiadau deiliad tŷ a mân geisiadau.
- 3.6 Roedd cyfleoedd hyfforddi a datblygu i gydweithwyr yn ddigwyddiadau yn bennaf a drefnwyd gan y Cyngor ei hun neu weithiau gan y RTPI, gan gynnwys Cynhadledd Gynllunio Cymru. Roedd diweddariad cyfreithiol hefyd gan FTB Chorens a Chynhadledd Gorfodaeth Cymru flynyddol. Darparwyd cyfleoedd mewnol drwy Gyfarfodydd Rheoli Datblygu a Pholisi Cynllunio Chwarterol. Mae cyfle hefyd i Swyddogion Rheoli Datblygu drafod achosion unigol gyda chydweithwyr mewn cyfarfodydd rheoli gwaith achos a gynhelir ddwywaith yr wythnos. Mae swyddog iau yn y tîm wedi cofrestru ar gyfer y cwrs Meistri Achrededig RTPI sy'n astudio ar gyfer gradd cynllunio, yn rhan amser.
- 3.7 Mae tri aelod o staff yn Rheoli Datblygu wedi ymgymryd â chymwysterau Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) dros y blynyddoedd diwethaf.

4.0 EIN STORI LEOL

Llwyth Gwaith

4.1 Roedd prosiectau allweddol yn ystod y cyfnod adrodd yn cynnwys:

- Rhoddwyd ystyriaeth ar y ffordd orau o symud ymlaen â'r CDLIA gan ystyried yr heriau a gododd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ac ymgysylltu â'r Strategaeth a Ffefrir flaenorol yn haf 2021, sef gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru i lefel y twf a

nodwyd yn y Strategaeth a Ffefrir a'r materion ansawdd dŵr yn yr Afonydd Gwy a'r Wysg, tra hefyd yn sicrhau bod y CDLIA yn cyflawni ein hamcanion ac yn mynd i'r afael â'n materion craidd o ddarparu tai fforddiadwy, gan leihau'r angen i bobl deithio a cheisio mynd i'r afael â'n hanghydbwysedd demograffig. Ym mis Medi 2022 cymeradwyodd y Cyngor y cynnig i fwrw ymlaen â strategaeth twf a gofodol newydd sy'n ymateb i'r uchod. Gan adlewyrchu hyn, cytunwyd ar Gytundeb Cyflenwi diwygiedig gan y Cyngor â Llywodraeth Cymru (Rhagfyr 2022) ac roedd y Strategaeth a Ffefrir CDLIA diwygiedig (CSR) a'r Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac ymgysylltu rhwng 5ed Rhagfyr 2022 a'r 30ain Ionawr 2023, gydag wyth digwyddiad galw heibio ymgysylltu ledled y Sir, ynghyd â dau ddigwyddiad rhithwir. Cyflwynwyd oddeutu 220 o sylwadau ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir a 650 o sylwadau ar gyfer y Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol yn ystod y cyfnod ymgynghori. Aeth y gwaith ymlaen ar asesiadau safle'r ymgeisydd, datblygu sylfaen dystiolaeth y CDLIA a chynrychioliadau prosesu. Rhagwelir y bydd yr adborth o'r Strategaeth a Ffefrir ac ymgynghoriad ar y Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol yn cael ei adrodd i'r Cyngor ym mis Hydref 2023. Bydd y canlyniad yn llywio cam allweddol nesaf y CDLIA, y Cynllun Adneuo.

- Dros y ddau gyfnod adrodd diwethaf mae'r patrwm gwaith wedi addasu o 100% o'n staff sy'n gweithio o gartref i drefniant mwy hybrid gyda swyddogion yn defnyddio lleoedd cydweithredu yn Neuadd y Sir i gwrdd fel grŵp ar ddydd Mawrth a dydd Iau gyda'r staff Tîm Cymorth gan ddefnyddio'r gofod gwreiddiol yn y swyddfa i gwrdd, sganio a hyfforddi cydweithwyr. Mae ymweliadau safle ar gyfer ceisiadau cynllunio wedi parhau er ein bod wedi atal ymweliadau ar gyfer cyflwyniadau cyngor cyn ymgeisio nes bod ein hadnoddau wedi eu hadfer yn llawn. Yn ystod y pandemig, roeddem wedi gadael i asiantau wybod y dylid cyflwyno'r holl geisiadau mor electronig gan fod y swyddfa ar gau dros dro ac na ellid sganio ffurfiau papur ar gyfer y Swyddog Achos ac ymgynghori. Mae'n ymddangos bod hyn wedi arwain at bron i 100% o'r ceisiadau yn cael eu cyflwyno'n electronig. Mae'r Pwyllgor Cynllunio wedi dychwelyd i drefniant hybrid gyda rhai Aelodau'n ffafrio mynychu Neuadd y Sir (tra bod eraill yn dewis mynychu o bell).
- Parhau â Gwasanaeth Treftadaeth ar y Cyd ar gyfer Cyngorau Sir Fynwy a Blaenau Gwent. Dechreuodd hyn ym mis Ionawr 2019 ac mae wedi galluogi rhoi cyngor treftadaeth arbenigol i'n hawdurdod cydmogol heb orfod cyflogi ei swyddog ei hun neu gomisiynu ymgynghorydd. Mae Cyngor Sir Fynwy yn rheoli'r gwasanaeth ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (CBSBG) drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ac yn darparu staff i ddarparu gwasanaeth treftadaeth gydnerth a gynorthwyr gan gyllid CBSBG.
- Tua diwedd yr 2021, fel awdurdod cynllunio roeddem yn wynebu cyfyngiad newydd o lygredd ffosffadau mewn afonydd. Yn Sir Fynwy, nodwyd bod 88% o gyrff dŵr yr afon wedi methu â chyrraedd y targed ansawdd dŵr gofynnol o fewn yr afon Wysg ac o fewn yr Afon, methodd 67% â chyrraedd y targed. O ganlyniad i'r methiant hwn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi canllawiau cynllunio manwl i sicrhau nad yw nodweddion amgylcheddol yr afonydd (sy'n feysydd cadwraeth arbennig dynodedig) yn dirywio ymhellach. Mae angen i unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn nalgylchoedd yr afonydd a allai gynyddu lefelau ffosffadau ddangos yn eglur o fewn cais cynllunio y gall y datblygiad ddangos niwtraliaeth neu welliant mewn ffosffadau o ran yn ei ddyluniad a/neu ei gyfraniad i'r corff dŵr. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd gallu

cyfyngedig i gysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus a bydd rhaid dod o hyd i ateb amgen. Mae'r gofyniad hwn ar ystyriaethau draenio wedi effeithio ar yr holl ddatblygiadau sy'n cynyddu cyfaint neu grynodiad y dŵr gwastraff. Rydym wedi bod yn gweithio trwy'r canllaw ac yn ei weithredu ar gyfer pob cais newydd yn y dalgylchoedd Gwy a'r Wysg. Mae hyn weithiau wedi gohirio ceisiadau ac roedd llawer ohonynt yn cael eu gohirio nes bod y Cyngor wedi datblygu strategaeth glir ar gyfer delio â materion o'r fath. Rydym yn parhau i weithio gydag ystod eang o asiantaethau gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru ac awdurdodau eraill (gan gynnwys byrddau rheoli maetholion newydd) i ddod o hyd i atebion cynaliadwy i'r broblem amgylcheddol sylweddol hon. Mae gwaith diweddar wedi gweld Dŵr Cymru yn ymrwymo i ddarparu technoleg i stripio ffosffadau yng Ngwaith Triniaethau Dŵr Gwastraff Trefynwy a Llan-ffwyst erbyn Ebrill 2025. Bydd yr ymrwymiad hwn yn helpu i ddod â datblygiadau sydd mawr eu hangen ym mhrif drefi Trefynwy a'r Fenni.

- Cyflwyno ein gwasanaeth Cyngor cyn-ymgeisio pwrpasol ar gyfer darpar ymgeiswyr, yn ogystal â chynnig tystysgrifau cyn-brynu a thystysgrifau cwblhau.
- Recriwtio staff newydd yn llwyddiannus a'u hyfforddi i addasu i'w rolau newydd mewn Tîmau Rheoli a Pholisi.
- Gweithredu elfennau o Gynllun Digidol y Tîm â blaenoriaeth i wella ein prosesau a phrofiad cwsmeriaid – gan gynnwys uwchraddio System Rheoli Dogfennau Idox (DMS) a Mynediad Cyhoeddus (PA).
- Sicrhau caniatâd cynllunio manwl ar gyfer Ysgol Gyfun newydd yr 21ain Ganrif yn y Fenni, dau ddatblygiad tai mawr yn Vinegar Hill a Rockfield Farm, Gwndy - y ddau yn safleoedd tai strategol yn y CDLI, datblygiad cyflogaeth sylweddol ym Mharc Busnes Cymru 1, Magwyr (14,400 metr sgwâr), datblygiad manwerthu bwyd sylweddol yng nghanolfan gymdogaeth Bulwark, ailddatblygiad yn Ysbyty Nevill Hall i ddarparu uned radiotherapi lloeren ddeulawr newydd a Gorsaf Heddlu newydd i wasanaethu ardal y Fenni a choridor yr A465 yn Llan-ffwyst.



Argraff Artist o Orsaf Heddlu Newydd wedi'i leoli ger A465 yn Llan-ffwyst (uchod) ac sydd bellach yn cael ei adeiladu (isod)

